

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstey, Rhuthun ar nos Fawrth, 27 Mai 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyng. James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins, Simeon Jones, Anne Roberts ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cyngorydd Sir.

11. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. June Derry, Sioned Foulkes, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Katy Morgan Williams a Geraint Woolford.

12. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel Is Gadeirydd y Mudiad, ddiddordeb yn yr eitem ganlynol ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 21(b) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Menter Iaith Sir Ddinbych

13. CADLANC AWYR RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan Awyr-lifftenant Geraint Griffiths. Ffurfiwyd Cadlanc Awyr Rhuthun yn 1941 ac mae 21 Cadét ar y llyfrau. Maent wedi bod yn weithgar gyda sawl digwyddiad dros y flwyddyn a fu gan gynnwys Marchnad Gynnyrch Rhuthun, Sioe Rhuthun a Diwrnod Gorymdeithio Cyn-filwyr. Rhoddodd hanes byr o'r Cadlanc Awyr a'u llwyddiannau am 2013. Maent yn gweithio ar sawl prosiect ar hyn o bryd gan gynnwys gardd gymunedol a chodi arian tuag at fws mini cymunedol. Mae'n gofyn i'r Cyngor Tref am gymorth ariannol ac fe wnaiff ddarparu rhagor o fanylion am brosiectau penodol. Diolchwyd iddo gan y Maer.

14. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

6 Mai Cyfweliadau parthed Swydd Cydlynnydd Rhuthun
8 Mai Paratodau gwasanaeth Rhyfel Byd Cyntaf
16 Mai Dadorchuddio Mosaig yn Llys Erw
17 Mai Cyfarfod gyda Esmor Davies, Marathon JCB
21 Mai Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Sgowtiaid Dyffryn Clwyd yn Llanelwy

15. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Gŵyl Rhuthun
Cyng. Elisabeth Culshaw	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Croeso Efeillio
Cyng. Ken Hawkins	Gardd yr Arglwydd yn Nantclwyd y Dre, paratoi ar gyfer Gwasanaeth Rhyfel Byd Cyntaf
Cyng. Simeon Jones	Gŵyl Rhuthun
Cyng. Anne Roberts	Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymunedau mwyaf Gogledd Cymru, Cyfarfod gyda phrisiw'r parthed Mynwent Llanrhydd, Croeso Efeillio
Cyng. Emrys Wynne	Croeso Efeillio

16. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2014.*

17. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

18. CYFARFOD BLYNYDDOL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau fel cywir cywir a mabwysiadu cofnodion Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 May 2014.*

19. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2014.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

20. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai 2014.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

21. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CYMDEITHAS GWYL RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gost yr Wyl eleni - mae £1,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r cyfraniad o £1,000.00 i'r Mudiad yma.*

(b) MENTER IAITH SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun - mae £500.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau cyfraniad blynyddol o £500.00 i'r Mudiad yma.*

22. MANDAD BANC – BANC BARCLAYS

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau llofnodwyr newydd h.y. Maer a Dirprwy Faer ar gyfer Mandad Banc.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r llofnodwyr newydd.*

23. AELODAU O GYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau eu manylion fel cywir ac ar gyfer defnydd yr aelodau yn unig.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r manylion fel cywir.*

24. TAITH GYFNEWID BATON Y FRENHINES

Derbyniodd yr aelodau rhagor o fanylion am yr uchod fydd yn mynd drwy Rhuthun dydd Gwener, 30 Mai.

25. PROSIECT TAI GWAG SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Gyngor Sir Ddinbych sydd yn cynnig cymorth ariannol i berchenogion tai gwag yn y sir.

PENDERFYNWYD: *derbyn y llythyr.*

26. UNDEB CREDYD GOGLEDD CYMRU

Derbyniodd yr aelodau gadarnhad ysgrifenedig o fuddsoddiad y Cyngor Tref gydag Undeb Credyd Gogledd Cymru.

27. ARCHWILIAD MEWNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o Adroddiad Archwiliad Mewnol gan JDH Business Services Ltd.

Mae'r Archwilydd yn datgan nad oes angen i Gynghorau bellach o dan y gyfraith angen cael sieciau neu orchmynion eraill am dâl eu harwyddo gan ddau aelod etholedig.

PENDERFYNWYD: *derbyn yr adroddiad archwiliad a pharhau gydag arwyddo sieciau fel ag o'r blaen.*

28. ARCHWILIAD ALLANOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

(a) Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol, mewn drafft ac i'r Cadeirydd arwyddo Tudalen I.

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol fel yr uchod.*

(b) Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Flynyddol.

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Flynyddol.*

29. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30^{ain} Ebrill 2014

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

31. CYFRIFON I'W TALU

D.U.	B.T.	Gwasanaeth Broadband	*	62.70
566	Sandra Williams	Cyfieithu – Cyfarfod Blynyddol	*	90.00
567	Sandra Williams	Cyfieithu – Cyfarfod Arferol	*	90.00
568	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant gwladol		172.40
569	Cyng. Stephen Beach	Lwfans y Maer (rhan)		500.00
570	Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod Blynyddol – anrhegion		37.49
571	Glascoed Timber	Gwasanaeth Biniau Baw C□n o 4 Tach 2013 – 21 Ebrill 2014	*	624.00
572	JDH Business Services Ltd	Archwiliad Mewnol 2013 / 14.	*	265.68
573	Cyng. Anne Roberts	Costau Teithio – 4 cyfarfod		72.00
574	Cymdeithas Sioe Rhuthun	Ffi Aelodaeth – Cyng. June Derry		5.00
575	J & C Brimble	Llwybr Celf – Dyfrio		95.00
576	Aerial Electrics Ltd	Gwaith ar lifoleuadau Eglwys Sant Pedr	*	93.12
577	Aerial Electrics Ltd	Llwybr Celf – gwaith ar Gloc y Twr	*	103.30
578	Gŵyl Rhuthun	Cyfraniad Blynyddol		1,000.00
579	Menter Iaith Sir Ddinbych	Cyfraniad Blynyddol		500.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £221.47)

31. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel:*